


Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenuwyr ifanc!

Dod i adnabod



Angharad Tomos



Crynodeb:

Stori garu sy'n rhychwantu canrif...

Bardd, athro, a Sosialydd o Ddyffryn Nantlle oedd Silyn. Un o Gymry Llundain oedd Mary Parry, arian byw o ferch, trefnydd heb ei hail, ac awen Silyn. Dyma stori eu dyfod ynghyd a sut y cydweithiodd y ddau i ymgyrchu dros addysg i bobl gyffredin. Yn yr oes anwadal hon, mae *Arlwy'r Sêr* yn chwedl i godi'r galon a'n hysbrydoli i gredu fod modd gwireddu breuddwydion.

Cyffyrddodd eu gwefusau, a theimlodd Mary yr ias ryfeddaf yn saethu drwy ei chorff

Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu *Arlwy'r Sêr* a dywedwch ychydig am y stori...

Stori wir ydi hi am y bardd Silyn o Ddyffryn Nantlle, a Mary Silyn ei wraig. Sgwennodd fy nhaid gofiant Silyn, a meddyliais sgwennu cofiant Mary, ond trodd yn nofel. Fe'u ganed tua ddiwedd y G19, ac mae'n nofel sy'n cwmpasu canrif. Stori garu ydyw am Sosialwyr wnaeth gymaint dros addysg y gweithwyr. Maent yn fy ysbrydoli.

Pam rydych chi'n ysgrifennu?

Mwynhau gwneud ydwi i, yn enwedig unwaith rydw i wedi cael stori dda. Dwi wrth fy modd yn darllen beth mae eraill wedi ei sgwennu, ac yn hoff o wyllo ffilmiau. Dwi wrth fy modd efo straeon pobl o bob math.

Beth sy'n eich ysbrydoli?

Pobl...syniadau...hanes... sut mae rhai wedi newid hanes, sut mae rhai wedi goroesi digwyddiadau...sut mae rhywrai yn trechu rhwystrau fil, ac eraill yn cael eu llethu gan y peth lleiaf. Amrywiaeth dynoliaeth, debyg.

Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau er mwyn annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?

Mae cael ysgolion i fynd a phlant i lyfrgell o oedran cynnar yn bwysig, a chael sesiwn adrodd straeon yn yr ysgol a chyfnod tawel i ddarllen. Rhwng tua 12 - 15, ddarllenais i fawr, ond os oedd rhywun yn dweud wrthyf fod llyfr yn rhy henaidd neu yn 'anaddas', byddwn yn siwr o ddarllen hwnnw!

Bywgraffiad

Mae Angharad Tomos yn awdur nifer helaeth o lyfrau i oedolion a phlant, wedi ennill Medal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith a Gwobr Tir na n-Og ddwywaith. Mae ei gwreiddiau'n ddwfn yn Nyffryn Nantlle, ac mae'n wyres i'r Sosialydd David Thomas, sy'n gymeriad blaenllaw yn y nofel hon.



carreg-gwalch.cymru



... mwy C&A
ar wefan

llyfrgelloedd.cymru